# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 10fed Chwefror 2020

Presennol: Henry Hughes, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes, Seimon Glyn, John Davies.

Ymddiheuriadau: Terry Hughes, Humphrey Williams

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:

a. Cyfarfod Cyhoeddus Ionawr 22ain. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad o'r hyn oedd wedi ei drafod yn y Cyfarfod Cyhoeddus, roedd pawb wedi derbyn cofnodion. Yn dilyn y cyfarfod, bu i'r Clerc gysylltu a Carter Jonas, ple cafodd ar ddeall fod tenant ar y gweill i'r siop. Addawyd hefyd y byddai arwyddion gosod tai yn ddwyieithog o hyn allan.

b.Arwyddion Porth Colmon – Hyd yn hyn ni dderbynniodd y Clerc ymateb gan Mr Ioan Evans, bydd yn cysylltu a fo eto. Yn y cyfamser cytunodd Seimon Glyn i gysylltu hefo Mr Barry Davies, gan ofyn am yr arwyddion, byddai Medwyn Jones wedyn yn gallu eu ail gosod.

c. Twll yn y ffordd ger Gwyndy, cafodd y Clerc ar ddeall gan yr Adran Ffyrdd y bydd y twll yn cael eu gau yn fuan.

4. **Gohebiaethau:**

a. Derbynnwyd llythyr gan Cylch Meithrin Bryncroes yn gofyn am help ariannol, bydd hwn yn cael ei ystyried mis Mawrth pan yn rhannu'r preisept.

b. Derbynnwyd llythyr gan Ambiwlans Awyr yn gofyn am help ariannol, bydd hwn hefyd yn cael ei ystyried mis Mawrth.

c. Derbynnwyd ebost gan Martin Huws, yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i droi safle'r cyflusterau cyhoeddus yn ganolfan ail-gylchu. Cafwyd ar ddeall ei bod yn fwriad gan y Cyngor Sir i gau safleoedd tebyg sy'n bodoli ar y funud, ac oherwydd hyn, ar ffaith nad oedd Cynghorwydd yr awyddus i gael safle o'r fath yn y pentref, penderfynnwyd peidio a symun ymlaen hefo'r cynnig.

ch.Derbynnwyd lythyr gan y Swyddfa Cynllunio Cyngor Gwynedd, yn gwybyddu ei fod yn fwriad gan BT gau 27 ffon cyhoeddus . Gan nad oedd un or rhain yn ardal Tudweiliog penderfynnwyd peidio ymateb.

d. Cais Trwydded Alcohol: Harbour Way (yr Hen Siop Fach) safle gwesylla Llecyn – Dim gwrthwynebiad. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Gynllunio i ofyn os cafwyd hawl newid defnydd.

dd. Derbynnwyd anfoneb aelodaeth gan Un Llais Cymru am £155.00, penderfynnwy ei dalu.

e. Derbynnwyd ebost gan Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llyn, yn ein gwybyddu eu bod nawr yn derbyn ceisiadau am nawdd.

f. Derbynnwyd ebost gan Dewi Wyn Owen o'r Adran Llwybrau yn ein gwybyddu y bydd yn cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnosau nesaf ac felly i ffwrdd o'i waith am gyfnod. Roedd angen gwybod os y bydd Cyngor Cymuned Tudweiliog yn awyddus i fod yn rhan o'r trefniant derbyn ad-daliad o gostau torri'r llwybrau. Bydd y Clerc yn ymateb gan ddatgan y bydd Cyngor Cymuned Tudweiliog am barhau i fod yn rhan o hyn - blwyddyn 2020/21

5. **Unrhyw fater arall**

a. Trafodwyd fod un Cyngorydd wedi colli dros 6 cyfarfod o'r Cyngor a hynny heb ymddiheuriad – penderfynnwyd y bydd y Clerc

yn anfon llythyr ato fydd yn datgan y bydd gofyn iddo gamu lawr o'r swydd.

CYNHELIR y CTFARFOD NESAF AR 9ed Mawrth 2020
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh